

## Carbon Pridd



### Beth yw carbon pridd?

Mae dau fath o garbon pridd i'w gael mewn priddoedd

1. **Carbon pridd anorganig** (carbonadau a bicarbonadau) – dylanwadir ar hyn gan y math o graig sylfaen a ffurfiodd y pridd ac mae'n amrywio yn ôl priodweddau pridd, fel asidedd a dyfnder.
2. Mae **carbon pridd organig** wedi'i ffurfio o gydrannau byw a marw gwreiddiau planhigion, micro-organebau a gweddillion anifeiliaid sy'n pydru. Mae **carbon pridd actif** yn ddangosydd o'r gyfran o garbon organig sydd ar gael yn rhwydd fel ffynhonnell bwyd ar gyfer microbau pridd – ac mae'n ddangosydd pwysig o bridd iach.


### Pam mae angen inni feddwl am garbon pridd?

1. Mae gan briddoedd gyda mwy o garbon organig strwythur mwy sefydlog ac mae'n dargadw dŵr yn well, mae gwell gweithgarwch biologol a chyflenwad maetholion, sy'n bwysig ar gyfer cynhyrchiant porthiant uwch.
2. Mae rheoli pridd sy'n cadw ac yn dal carbon yn helpu i liniaru newid hinsawdd.

**Stoc o garbon organig (t/ha)** = cyfanswm gwerth carbon organig mewn tunelli o garbon fesul hectar. Pennir y cyfrifiad hwn gan lefelau carbon wedi'u haddasu ar gyfer cynnwys cerrig (% o'r cyfaint), drwy samplio dyfnder a dwysedd crynswth (mas y pridd mewn cyfaint penodol).

## Sut caiff carbon pridd ei fesur?

1. Cesglir samplau pridd gan ddefnyddio teclyn wedi'i ddylunio'n arbennig – i gael 'colofn' o bridd hyd ddyfnder o 30 cm.
2. Bydd adroddiad y labordy'n cynnwys ffigur ar gyfer y **stoc o garbon organig** yn y pridd... beth yw stoc garbon uchel ac isel?



## Beth allaf ei wneud ar fy fferm i?

1. **Sefydlu gwaelodlin** ar gyfer stociau carbon pridd – gan roi ystyriaeth i'r gwahaniaethau mewn mathau o bridd ac arferion rheoli ar raddfa fawr
2. **Mae rheoli'r pridd yn effeithio ar lefelau carbon organig** – dylai priddoedd gyda stociau carbon isel ddal digon o garbon drwy reoli 'carbon-gyfeillgar' yn cynnwys mewnbynau uwch o ddeunydd organig (e.e. tail a chnydau gorchudd) a chyfyngu ar aflonyddu
3. **Mae aflonyddu ar bridd yn gollwng carbon i'r atmosffer** – dylid rheoli priddoedd gyda stoc garbon uchel yn ofalus i gynnal stociau C pwysig

### Deall Stociau Carbon Pridd

Ceir y stociau mwyaf o garbon pridd mewn glaswelltir lled-naturiol, rhostiroedd, mawnogydd, hen goetiroedd a gwlyptiroedd

Mae'r swm o garbon pridd a gaiff ei storio neu ei goll'n codi a gostwng yn dymhorol – y cydbwysedd sy'n pennu a yw pridd yn ddalfa neu'n ffynhonnell ar gyfer carbon atmosfferig.

Mae'r stociau a chyfraddau newid cyffredinol yn dibynnu ar y math o bridd – mae gan briddoedd tywodlyd garbon isel ac maent yn newid yn gyflym o'i gymharu â phriddoedd sy'n cynnwys mwy o glai.

*Ariennir y prosiect hwn drwy raglen Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020, a ariennir gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig a Llywodraeth Cymru.*